**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 13 Ionawr 2017**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Gwynn Angell Jones Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)
Dr. Helena Bird (Llywodraeth Cymru)
Kirsty Douglas (Llywodraeth Cymru)

**Tîm Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
Owen Roberts (Arweinydd Cyfathrebu)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yn benodol, croesawyd Kirsty Douglas, Swyddog Polisi Amaeth Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Tachwedd 2016*

Cynhaliwyd gweithgor o'r Bwrdd a'r Weithrediaeth ar 9 Tachwedd 2016 i ymgymryd â gwaith cynllunio rhagarweiniol ar y Cynllun Gweithredol drafft ar gyfer blwyddyn 2017 / 2018. Teimlai'r Bwrdd y bu'r cyfarfod hwn a'r alwad ffôn aml-wrando wedyn yn ystod Rhagfyr 2016 yn fuddiol.

Bu'r Cadeirydd yn croesawu gwesteion i'r cynio cyn y gynhadledd, yn Seiont Manor, a bu'n cadeirio cynhadledd flynyddol HCC yn Nhŷ Menai, Bangor – Gweler Eitem 5.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghinio Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd.

Cafodd Aelodau'r Cynulliad eu gwahodd gan y Cadeirydd a'r Weithrediaeth i friff am y farchnad allforio yn y Senedd ar 23 Tachwedd 2017. Noddwyd y digwyddiad gan Huw Irranca-Davies, AC, ac roedd nifer dda o Aelodau'r Cynulliad, eu hymchwilwyr a chynrychiolwyr allweddol o'r diwydiant yn bresennol.

Bu’r Cadeirydd yn Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Diolchodd i’r Bwrdd am fod yno a chanmolodd staff HCC am gyfrannu tag at wneud y digwyddiad yn llwyddiant i HCC – Gweler Eitem 5.

*Rhagfyr 2016*

Cafodd HCC ei gynrychioli gan y Cadeirydd mewn gweithdy agored i gyfrannu at ddatblygu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar y polisi hwn yn ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Cabinet a byddai’r gweithdy yn ceisio casglu barn a sylwadau rhanddeiliaid ynghylch yr hyn y bwriedid ei wneud a’i gyflawni.

Hefyd, bu’r Cadeirydd yn nigwyddiad carcasau’r Nadolig a drefnwyd gan William Lloyd Williams, Machynlleth, a St Merryn (Grŵp Bwyd 2 Sisters), Merthyr Tudful.

*Ionawr 2016*

Derbyniodd y Cadeirydd wahoddiad i gynrychioli HCC – a rhoddodd dystiolaeth – mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig ar 12 Ionawr 2017. Yn benodol, gofynnwyd i’r Cadeirydd roi tystiolaeth ynghylch y sefyllfaoedd masnachu gwahanol ar gyfer cig coch ar ôl Brexit ac amlinellu’r gwaith sy’n cael ei wneud i hyrwyddo ŵyn mynydd bach.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Bethan Jones a Wyn Williams.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd – John Brereton

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016 (HCC 724)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Fforwm Holi ac Ateb Bwrdd HCC gyda Thalwyr Ardoll - 10 Tachwedd 2016*

Cytunodd y Bwrdd y bu’r digwyddiad cyntaf yn llwyddiannus. Diolchodd y Cadeirydd i’r Bwrdd am eu mewnbwn a phroffesiynoldeb wrth ymateb i gwestiynau o’r llawr. Bu’r ffrydio byw yn llwyddiannus heb unrhyw broblemau

mawr, gydag oddeutu 20 o wylwyr ar y tro. Byddai’r adborth yn cael ei ystyried gan y Weithrediaeth cyn y cynhelid digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

*Cynhadledd Flynyddol HCC – Ddydd Iau 10 Tachwedd 2016*

Nodwyd bod y Gynhadledd wedi cael adborth positif yn gyffredinol, ac roedd dros gant o bobl yn bresennol.

Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn pryderu am fod cyn lleied o ffermwyr yn bresennol mewn cymhariaeth â’r nifer a fu yn y cyfarfodydd CAM Ymlaen a drefnwyd yn rhanbarthol gan HCC yn ddiweddar. Nodwyd hyn gan y Weithrediaeth a rhoddid ystyriaeth i’r mater wrth gynllunio digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Rhoddwyd sylw i’r Gynhadledd gan y rhaglen Ffermio a sylw eang gan y Wasg.

*Y Ffair Aeaf –28 / 29 Tachwedd 2016*

Roedd dros gant o wahoddedigion yn bresennol ym mrecwast blynyddol HCC, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Cabinet, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr allweddol o’r diwydiant.

Roedd presenoldeb HCC yn Neuadd Morgannwg yn llwyddiant, ac roedd dyluniad y stondin yn gweithio’n dda. Ymwelwyd â'r stondin gan nifer o ffermwyr a defnyddwyr yn ystod y ddau ddiwrnod.

Roedd nifer o’r gweithgareddau ar stondinau HCC eleni wedi golygu cydweithredu â sefydliadau eraill; megis arddangosiad coginio gan lysgenhadon ifainc y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol, arddangosiad gydag aelodau o dîm Coginio Olympaidd Cymdeithas Goginio Cymru, ac arddangosiad yn dangos sut i wastraffu llai o fwyd (ar y cyd â WRAP Cymru). Roedd hyn wedi gweithio’n dda a byddai’r Weithrediaeth yn ei ystyried eto yn y dyfodol.

*Penodi Cadeirydd HCC ac Aelodau o’r Bwrdd*

Nodwyd bod swyddi’r Cadeirydd a’r Bwrdd wedi cael eu hysbysebu. Disgwylid y byddai’r cyfweliadau ar gyfer y Cadeirydd yn cael eu cynnal yn ystod mis Chwefror 2017 ac ar gyfer y Bwrdd ym mis Mawrth 2017.

Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet ar ran y Bwrdd ynghylch cynrychiolaeth i’r talwyr Ardoll ar y Bwrdd newydd. Roedd y Cadeirydd wedi nodi bod amrediad eang o sgiliau yn bwysig er mwyn i’r Bwrdd fod yn effeithiol a bod teimlad cryf ymhlith aelodau’r Bwrdd a rhanddeiliaid y dylid cael cynrychiolaeth dda o brif gyllidwyr HCC, sef y talwyr Ardoll o blith y ffermwyr a’r proseswyr, er mwyn sicrhau perchnogaeth y buddsoddiad ar eu rhan gan HCC. Roedd disgwyl ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet.

*IBERS – Diadelloedd Wyneblas, Suffolk a Beulah*

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau fod HCC wedi cyfarfod â Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS, i drafod y mater. Roedd HCC wedi cytuno i lunio papur briffio i edrych ar hanes y diadelloedd a'r dewisiadau posibl i'r diadelloedd ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol, Câi'r gwaith hwn ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2017.

Nodwyd bod IBERS yn dal i ystyried dyfodol y diadelloedd.

*Undeb Amaethwyr Cymru - Y defnydd o'r term "Hesbinod/Hoggets"*

Nodwyd bod HCC wedi ateb Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru ynghylch y defnydd priodol o'r term 'hesbinod/hoggets'. Roedd HCC yn cytuno na ddylid defnyddio'r term i ddisgrifio anifeiliaid cyn eu bod tua 12 mis oed. Byddai'r eitem hon yn cael ei hystyried ymhellach a châi'r Bwrdd glywed am unrhyw ddatblygiadau.

*Pryderon ynghylch gallu Cyswllt Ffermio i weithio ar y cyd*

Roedd cyfarfod rhwng aelod o Fwrdd HCC, Gweithrediaeth HCC a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Chyswllt Ffermio wedi ei drefnu ar gyfer dydd Gwener 13 Ionawr 2017.

Rhoddid diweddariad i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ddydd Gwener 3 Mawrth 2017.

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a'r costau adennill ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2017 / 2018*

Nodwyd bod argymhelliad y Bwrdd y dylid cadw cyfraddau a chostau adennill yr Ardoll 2017 / 2018 yr un fath ag ar gyfer 2016 / 2017 wedi cael ei rannu â swyddfa'r Ysgrifennydd Cabinet er mwyn ei ystyried gan Weinidogion Cymru.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 725)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Trefnodd HCC a'r consortiwm addysg GwE ddigwyddiad hyfforddi i athrawon yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Ynys Môn.

Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar darddiad bwyd a sut i gyflwyno cymhwyster bwyd TGAU mewn ysgolion uwchradd. Roedd y cwrs yn rhoi cyfle i athrawon gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol y gallent eu defnyddio i addysgu pobl ifainc ynghylch yr wyddoniaeth y tu ôl i baratoi cig a bwydydd eraill.

Roedd nifer dda iawn o bobl yn y digwyddiad, ond mynegwyd pryderon y gellid wynebu heriau mawr yn y dyfodol o ran darparu hyfforddiant i athrawon a’r diffyg adnoddau sydd ar gael i staff addysgu.

Argymhellwyd a chytunwyd y dylai HCC ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet, ynghyd â’r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg i dynnu sylw at y pryderon hyn.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 726)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 727)*

**Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchodedig**

Byddai'r Prif Weithredwr a’r Arweinydd Cyfathrebu yn mynychu cyfarfod o’r Gymdeithas yn y DG yn swyddfeydd Defra yn Llundain ar 18 Ionawr 2017.

Byddai Gweinidog Defra, George Eustice, AS yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd ag Aelodau o’r Gymdeithas / sefydliadau allweddol o’r sector bwyd a diod ar draws y DG. Byddai’r drafodaeth yn canolbwyntio ar y posibilrwydd o gyflwyno cynllun tebyg y gellid ei ymgorffori yng nghyfraith y DG i gyd-fynd ag ymadawiad y DG â’r UE. Byddai hyn yn caniatáu i Enwau Bwyd Gwarchodedig, ar ôl Brexit, gadw eu statws yn yr un modd ag Enwau Bwyd Gwarchodedig nad ydynt yn perthyn i’r UE.

7. **I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2017 / 2018 (HCC 728)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Pennaeth Gweithrediadau.

Roedd angen i’r Cynllun Gweithredol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn y cyfarfod ar 3 Mawrth 2017. Felly, cytunwyd y dylid cyfeirio adborth neu sylwadau pellach at y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol erbyn diwedd Ionawr 2017 fel bod modd i newidiadau gael eu cynnwys yn y drafft terfynol.

Trafodwyd a nodwyd sylwadau’r Bwrdd.

Byddai drafft diwygiedig o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2017 / 2018 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn y cyfarfod nesaf, ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau a nodwyd.

Nodwyd y byddai drafft o Gynllun Corfforaethol HCC 2017 / 2020 hefyd yn cael ei gyhoeddi er ystyriaeth y Bwrdd cyn y cyfarfod nesaf.

8. **<u>I Dderbyn Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2017 / 2018 (HCC 729 )</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

9. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Roedd trafodaethau'n parhau ar lefel Weinidogol i ddatrys mamwladoli'r ardoll cig coch, ond argymhellwyd y newidiadau diymdroi a ganlyn fel cam dros dro wrth i'r trafodaethau barhau.

Byddai'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn neilltuo swm o £2m ar gyfer 2017 / 2018 er mwyn cefnogi rhaglen o weithgareddau a fyddai o fudd i dalwyr Ardoll gwartheg, defaid a moch. Defnyddid yr arian yn dilyn trafodaethau sydd ar fin digwydd rhwng AHDB, QMS a HCC.

10. **<u>I gael diweddariad am y cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru ynghylch Brexit</u>**

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn dal i gynrychioli HCC yn y cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru i drafod goblygiadau Brexit. Felly, canolbwyntiwyd ar dair agwedd, sef mynediad i farchnad yr UE ar ôl Brexit, cymorth i amaethyddiaeth a'r goblygiadau yn y dyfodol i weithwyr mudol.

11. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch cais HCC am gyllid gan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020 ar ran y Diwydiant Cig Coch</u>**

Nid oedd diweddariad i'w roi.

12. **<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>**

a. <u>I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod yr Is-bwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016</u>

Rhoddwyd adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016.

b. <u>I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mehefin 2016 (HCC 730)</u>

Cymerwyd bod cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mehefin 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

13. **<u>Y Pwyllgor Cynghori Y&D</u>**

a. <u>I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Rhagfyr 2016</u>

Rhoddwyd adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Rhagfyr 2016:-

Rhoddwyd i'r Pwyllgor ddiweddariad am yr holl brosiectau a gefnogir gan HCC

Roedd dau brosiect PhD yn cael eu hariannu trwy gynllun KESS ac yn ddiweddar roedd y ddau fyfyriwr wedi mynychu dyddiau hyfforddiant HCC, 'Dewis ar gyfer Lladd', fel rhan o'u hymrwymiad i'r diwydiant.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried dau gynnig ar gyfer eu cyllido. Un a wnaeth argraff ar y Pwyllgor oedd cynnig gan Brifysgol Lerpwl i archwilio i amlder ac achosion cegleithedd mewn ŵyn er mwyn datblygu ffyrdd o ddefnyddio llai o wrthfiotigau.

Hefyd, bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth am ddilyniad i'r prosiect Cymharu Hyrddod. Roedd y Pwyllgor yn amheus o bwrpas a gwerth am arian yr ail ran a châi tîm y prosiect wahoddiad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 2 Mawrth 2017 er mwyn trafod y mater ymhellach.

b. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Medi 2016 (HCC 731)

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Medi 2016, wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

14. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Rhoddwyd adroddiad llafar ar yr uchod.

15. **Unrhyw fater arall**

*Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru / HCC (Hydref 2016)*

Cafodd copi o'r uchod ei roi gerbron y Bwrdd er gwybodaeth.

Cafodd y ddogfen Fframwaith ei llunio gan Is-adran Amaethyddiaeth a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â HCC. Roedd yn nodi'r fframwaith eang y mae HCC yn gweithredu o'i fewn ac yn rhoi manylion am y telerau ac amodau sy'n rheoli'r gweithredu hwnnw. Câi'r Fframwaith ei adolygu'n barhaus rhwng Llywodraeth Cymru a HCC.

*Ŵyn Ysgafn*

Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd, byddai HCC yn trefnu cyfarfod ar gyfer ffermwyr, proseswyr, yr Undebau Amaethyddol, y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol a swyddogion Llywodraeth Cymru ar 20 Chwefror 2017.

Argymhellwyd y dylid trafod y materion cyfredol ac atebion posibl ar draws y gadwyn gyflenwi er mwyn creu marchnad fwy bywiog ar gyfer yr ŵyn ysgafnaf.

16. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 3 Mawrth 2017.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**